Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Offerynnau Statudol Gydag Adroddiadau Clir
17 Tachwedd 2014

## CLA463 – Rheoliadau Cynlluniau Cymorthdaliadau a Grantiau Amaethyddol (Apelau) (Cymru) (Diwygio) 2014

**Gweithdrefn**: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau pellach i Reoliadau Cynlluniau Cymorthdaliadau a Grantiau Amaethyddol (Apelau) (Cymru) 2006 ("Rheoliadau 2006"). Effaith y diwygiadau a wneir drwy Reoliadau yw diweddaru'r rhestr o ddeddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd a gwmpesir gan Reoliadau 2006 gan ganiatáu gwneud apelau mewn perthynas â phenderfyniadau a wneir ynghylch taliadau uniongyrchol a chynlluniau datblygu gwledig a wneir o dan Reoliadau newydd y Polisi Amaethyddol Cyffredin.

## CLA464 – Gorchymyn y Rhestrau Ardrethu (Dyddiad Prisio) (Cymru) 2014

**Gweithdrefn**: Negyddol

Mae'r Gorchymyn hwn yn dynodi 1 Ebrill 2015 fel y dyddiad y dylid cyfeirio ato pan gaiff gwerth ardrethol hereditament annomestig ei benderfynu at ddibenion y rhestrau ardrethu annomestig lleol a chanolog i'w llunio ar 1 Ebrill 2017.